Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 6 Ebrill 2023 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Steve Hunt | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Paul Miller | Cyngor Sir Benfro |
| Darren Price | Cyngor Sir Gar |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Chris Foxall | Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Economaidd Abertawe |
| Emma Woollett | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Brown | Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Diogelu'r Cyhoedd (Cyngor Sir Penfro) |
| Sharon Burford | Cyngor Sir Gâr |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Allison Lowe | Cyngor Abertawe |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Phil Ryder | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |
| Ian Williams | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr) David Simpson (Cyngor Sir Benfro)
Paul Boyle (Prifysgol Abertawe)

---

## 50 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 51 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2023 fel cofnod cywir.

## 52 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

Llongyfarchodd y Cadeirydd gydweithwyr yng nghyngor Castell-nedd Port Talbot a Sir Penfro ar eu ceisiadau llwyddiannus am Borthladd Rhydd Celtaidd.

Cyhoeddodd hefyd fod y gyfran nesaf o gyllid gwerth £23m wedi dod i law am y flwyddyn. Ailadroddodd mai Bargen Ddinesig Bae Abertawe oedd yr unig ranbarth o hyd i gael statws “byw” ar gyfer ei holl brosiectau.

## 53 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 54 Y diweddaraf am Brosiect Pentre Awel. (Er Gwybodaeth)

Cyflwynodd Dr Sharon Burford, Rheolwr Prosiect Pentre Awel adroddiad “Er Gwybodaeth” i hysbysu'r Cyd-bwyllgor o'r cynnydd a wnaed a statws Prosiect Pentre Awel.

I gefnogi'r adroddiad cyhoeddedig rhannodd hefyd gyflwyniad Powerpoint a oedd yn cynnwys fideo byr.

Er mai adroddiad “er gwybodaeth” oedd hwn, cynigiodd y Pwyllgor yn ffurfiol ei fod yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i dynnu sylw at y pwysau o ran costau adeiladu.

## 55 Achos Busnes Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Ian Williams, Rheolwr Datblygu Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe adroddiad i roi Achos Busnes Portffolio’r Fargen Ddinesig wedi’i ddiweddaru i’r Cyd-bwyllgor i’w gyflwyno i Lywodraethau Cymru a’r DU.

Dywedodd fod mân newidiadau wedi eu gwneud i’r ddogfen ond bod y rhain yn adlewyrchu’n well gynnydd y prosiectau, heriau’r sefyllfa economaidd bresennol a'r trefniadau llywodraethu cynyddol aeddfed yn hytrach nag unrhyw newidiadau sylfaenol i gyfansoddiad neu ddichonoldeb y busnes.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cymeradwyo Achos Busnes Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe sydd ynghlwm yn Atodiad A i'w gyflwyno i Lywodraethau Cymru a'r DU.

**56 Adroddiad Uchafbwyntiau Bargen Ddinesig Bae Abertawe. (Er Gwybodaeth)**

Cyflwynodd Phil Ryder, Rheolwr Swyddfa'r Portffolio, Bargen Ddinesig Bae Abertawe, adroddiad “Er Gwybodaeth” i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Cyd-bwyllgor am y rhaglenni/prosiectau sy’n rhan o Bortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe fel yr amlinellir yn Atodiad A.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.28 am

**Cadeirydd**